# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 4 Chwefror 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Amcan 1 (Y De-ddwyrain)

**C11 William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch effaith rhaglen gyllido Amcan 1 ar y De-ddwyrain? (OAQ22129)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae Amcan 1 yn cael effaith wirioneddol ar y De-ddwyrain. O fewn chwe awdurdod Amcan 1 y De-ddwyrain, cymeradwywyd 179 prosiect erbyn diwedd y llynedd a phroffwydir y bydd y rhain, ynghyd â phrosiectau rhanbarthol, yn creu dros 11,000 o swyddi a bron i 700 o gwmniau bach newydd.

### Ailgylchu yng Nghymru

**C12 Peter Black:** Pa adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer hybu ailgylchu yng Nghymru? (OAQ22138) [R]

**Y Prif Weinidog:** Dyrannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £51.63 miliwn ar gyfer rheoli gwastraff cynaliadwy rhwng 2001-02 a 2003-04, gan gynnwys £42.5 miliwn i awdurdodau lleol gynnal targedau strategaeth gwastraff Cymru. Yr ydym hefyd wedi ariannu'r sector gwirfoddol amgylcheddol, ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a phrosiectau ymchwil. Gall cymorth grant fod ar gael i fusnesau ailgylchu.

### Undebau Credyd

**C13 Gwenda Thomas:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddatblygiad yr undebau credyd yng Nghymru? (OAQ22147)

**Y Prif Weinidog:** Er Medi 2000, cyfrannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bron i £850,000 i Ganolfan Cydweithredol Cymru i gynnal ei phrosiect ar gyfer datblygu a lledaenu'r mudiad undebau credyd yng Nghymru. At ei gilydd, cyfrannwn bron i £1.4 miliwn dros gyfnod y prosiect, a gaiff ei gynnal hefyd gan oddeutu £2.1 miliwn o arian Amcan 1.

### 'GwellCymru.com'

**C14 Cynog Dafis:** A wnaiff y Prif Weinidog roi adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyrraedd targed y Llywodraeth yn y ddogfen 'GwellCymru.com' o greu 34,000 o swyddi yn y Gorllewin a'r Cymoedd erbyn Mawrth 2003? (OAQ22150)

**Y Prif Weinidog:** Rhwng 1998, y sail ar gyfer 'GwellCymru.com', a Thachwedd 2002, bu cynnydd o 10,000 mewn cyflogaeth yn y Gorllewin a'r Cymoedd. Rhwng 1999, pan ddaeth y Cynulliad i fodolaeth, a Thachwedd 2002, bu cynnydd o 22,000 mewn cyflogaeth yn y Gorllewin a'r Cymoedd.

### Gosod Targedau

**C15 Phil Williams:** Pa weithdrefnau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu dilyn i bennu'r targedau a nodir yn natganiadau polisi'r Llywodraeth a pha fethodoleg sy'n cael ei defnyddio? (OAQ22146)

**Y Prif Weinidog:** Bydd y Cynulliad yn defnyddio'r targedau mwyaf priodol i gyd-destun y polisi penodol. Nid oes corff unffurf o weithdrefnau na methodolegau, er y tynn targedau ar wybodaeth berthnasol o ffynonellau ystadegol ac eraill.